


Adnodd yn seiliedig ar
bwnc
Dŵr
Cyfnod Allweddol 2 (Lefel
Uwch)



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

Gwybodaeth gefndirol

Dŵr yw un o'r adnoddau naturiol pwysicaf ar y Ddaear ac mae'n rhaid i ni ddysgu ei amddiffyn. Mae'n bwysig deall sut mae dŵr yn troi mewn cylch, a sut mae dŵr, hyd yn oed ar ôl i ni ei ddefnyddio, yn parhau ar ei daith o amgylch y cylch. Dŵr yw un o'r adnoddau naturiol pwysicaf ar y Ddaear ac mae'n rhaid i ni ddysgu ei amddiffyn. Mae'n bwysig deall sut mae dŵr yn troi mewn cylch, a sut mae dŵr, hyd yn oed ar ôl i ni ei ddefnyddio, yn parhau ar ei daith o amgylch y cylch. Drwy ddysgu am y cylch dŵr byddant hefyd yn dechrau deall beth yw cymylau, sut mae gan goed ran yn y broses, a sut mae gan fodau dynol y pŵer i ymyrryd ar y broses gyfan.



Safbwynt hinsawdd

Er bod dŵr yn llifo mewn cylch mae 'r cydbwysedd yn fregus, ac mae'n bwysig nad yw bodau dynol yn camddefnyddio dŵr gan y gall hyn amharu ar y cylch. Drwy ddefnyddio gormod o ddŵr o un ardal gall achosi sychder yn yr ardal

honno. Pan fydd dŵr yn llifo drwy ein systemau carthffosiaeth mae'n cymryd ynni i'w drosi'n ôl yn ddŵr glân fel y gallwn ei ailgyflwyno i'r cylch. Gwyddom mai gorddefnydd o ynni yw un o brif achosion newid yn yr

hinsawdd, sydd yn ei dro yn cael effaith ar y cylch dŵr drwy godi lefel y môr. Dyma un o'r ffactorau sy'n achosi digwyddiadau tywydd eithafol yn

cynnwys llifogydd. Mae'n bwysig bod plant yn deall y cylch dŵr a'u rôl wrth warchod dŵr.

Hidlo Dŵr

Cyfnod Allweddol 2 (Lefel Uwch)

Mewn rhai lleoedd yn y byd, nid oes mynediad at ddŵr glân felly mae'n rhaid iddynt wneud eu gorau i wneud yr hyn sydd ganddynt ar gael yn ddiogel i'w ddefnyddio. Bydd y gweithgaredd hwn yn gofyn i'r plant ddefnyddio dŵr budr iawn a cheisio ei hidlo fel ei fod yn glir eto. Dim ond deunyddiau naturiol y dônt o hyd iddynt ar dir yr ysgol y gallant eu defnyddio i wneud hyn e.e. dail, mwsogl, rhisgl, cerrig. Gallech hefyd roi tywod iddynt pe dymunech.

Deunyddiau sydd eu hangen:

- Poteli plastig gyda'r gwaelodion wedi'u torri i ffwrdd.
- Deunyddiau naturiol - os oes gan dir eich ysgol leoedd gwyrdd caniatewch i'r plant gasglu eu deunyddiau eu hunain ond os yw deunyddiau yn brin bydd angen i chi eu darparu.
- Dŵr wedi'i gymysgu â phridd a malurion eraill.
- Cynwysyddion ar gyfer casglu dŵr 'glân'.



Cam 1

Dangoswch i'r plant sut mae rhoi'r deunyddiau yn y botel un haen ar y tro. Dangoswch sut mae arllwys y dŵr drwodd ac edrych ar y dŵr gorffenedig. A yw'r dŵr yn edrych yn lanach o gwbl?

Cam 2

Gofynnwch i'r plant weithio mewn grwpiau a rhowch botel a chynhwysydd ar gyfer casglu'r dŵr ar ôl iddo gael ei hidlo i bob grŵp.



Cam 3

Gadewch i'r plant gasglu detholiad o ddeunyddiau naturiol o amgylch y tir cyn eu trefnu yn y botel. Efallai yr hoffent eu gosod mewn haenau neu gymysgu'r cyfan. Yr her gyntaf fydd gwneud yn siŵr nad yw popeth yn disgyn allan o wddf y botel! Gall gymryd sawl tro iddynt brofi unrhyw lwyddiant felly dylid eu caniatáu i barhau i arbrofi gyda deunyddiau naturiol gwahanol hyd nes y maent yn fodlon ar sut mae'r deunyddiau wedi cael eu gosod.

Cam 4

Pan fydd pawb yn barod gallwch arllwys y dŵr budr drwy bob potel a chymharu canlyniadau'r grwpiau gwahanol.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Maes Dysgu a Phrofiad - Y Dyniaethau

Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig:

Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

Maes Dysgu a Phrofiad: Gwyddoniaeth a Thechnoleg -

Datganiad o'r Hyn sy'n Bwysig:

Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

Camau nesaf a syniadau eraill

- Trafodwch at ba ddiben ymarferol y gellid defnyddio'r arbrawf hwn e.e. gwledydd yn y trydydd byd lle mae mynediad at ddŵr glân yn brin, sefyllfaoedd argyfyngus lle amharir ar gyflenwadau dŵr glân.
- Ymchwiliwch i sut mae gwaith trin dŵr yn gweithio.
<https://corporate.dwrcymru.com/en/community/education>



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Rhif Cofrestru'r Cwmni: 4011164 Rhif Cofrestru'r Elusen: 1082058 Rhif Cofrestru TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850

